COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU

COFNODION O GYFARFOD A GYNHALIWYD AM 10.30am DDYDD GWENER 23ain CHWEFROR 2001 YN NHY CARADOG, 1-6 ST ANDREWS PLACE, CAERDYDD CF10 3BE

Presennol:

Comisiwn	**Ysgrifenyddiaeth**
Yr Athro E Sunderland (Cadeirydd)	Mr R Knight (Ysgrifennydd)
Mr E F L FitzHugh (Dirprwy Gadeirydd)	Mr E Lewis (Darpar Ysgrifennydd)
Mrs S Smith (Aelod)	Mr S Halsall
	Mr D Carr

1. Cofnodion o gyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 23ain Ionawr 2001.

1.1 Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod diwethaf.

2. Materion yn codi

2.1 Estynnwyd croeso gan y Cadeirydd i Mr Lewis sydd wedi ei benodi i swydd Ysgrifennydd y Comisiwn o'r 2il Ebrill 2001.

2.2 Adroddodd Mr Halsall y byddai oedi wrth gyhoeddi'r adroddiad ar gyfer Arolwg Cymunedol Cynffig oherwydd ôl-gronniad o adroddiadau sy'n aros i'w hargraffu o ganlyniad i'r ymarferiad tendro contract argraffu diweddar.

3. Arolwg o'r ffin rhwng Sir Ddinbych a Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn Llangollen – adroddiad o gynnydd.

i) crynodeb o gynrychioliadau

3.1 Cofnododd y Comisiwn y cynrychioliadau a dderbyniwyd. Nododd Mrs Smith o blith y cynrychioliadau a ddyfynnodd ganlyniadau refferendwm, roedd y rhai a oedd yn dymuno cynnal arolwg o'r ffin yn dyfynnu canlyniadau refferendwm 1993 tra roedd y rhai nad oedd yn dymuno cael arolwg yn dyfynnu canlyniadau refferendwm 2000. Rhybuddiodd y Cadeirydd na ddylid rhoi gormod o bwyslais ar ganlyniadau refferendwm 1993 gan y gallai amgylchiadau fod wedi newid ers cynnal y refferendwm. Nodwyd y bu canlyniad y refferendwm diweddaraf tua 2% yn erbyn arolwg o'r ffin. Nodwyd hefyd nad oedd o anghenraid yn dilyn y byddai'r rhai a bleidleisiodd o blaid arolwg yn pleidleisio o blaid newid i'r ffin.

ii) cynrychioliadau gan Gyngor Sir Dinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Ystyriodd y Comisiwn y cynrychioliadau a dderbyniwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Derbyniwyd cynrychiolaeth drafft gan Gyngor Sir Dinbych a disgwylir i'r

fersiwn terfynol gael ei gyflwyno'n fuan iawn. Byddai'n cael ei ddosbarthu i Gomisiynwyr cyn gynted ag y byddai ar gael.

iii) Adroddiad Drafft IPF

3.3 Teimlai'r Comisiwn y byddai'n ddefnyddiol i gyfarfod Rita Hale (IPF) i drafod materion allweddol yr adroddiad gyda hi a hefyd nifer o gwestiynau oedd yn codi o'r adroddiad ynglyn â gwasgaredd gwledig a gwasanaethau ysgolion yn Llangollen. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifennydd yn cysylltu â Rita Hale i weld a fyddai'n gallu mynychu cyfarfod y Comisiwn ar 22 Mawrth 2001.

3.4 Nodwyd, o ganlyniad i amserlen yr arolwg, y byddai angen cynhyrchu Cynigion Drafft cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, byddai angen rhoi cyfle i'r awdurdodau lleol wneud sylwadau ar yr adroddiad IPF cyn llunio'r Cynigion Drafft. O ganlyniad i'r amgylchiadau hyn credai'r Cadeirydd efallai y byddai angen gwneud cais am estyniad i ddyddiad olaf yr arolwg o 31 Hydref 2001. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn paratoi asesiad o bob cyflwyniad a dderbyniwyd yn amlinellu'r prif faterion ar gyfer cyfarfod y Comisiwn ar 22 Mawrth 2001.

iv) nodiadau o gyfarfod gyda Chyngor Sir Dinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – 02/02/01

3.5 Derbyniodd y Comisiwn nodiadau'r cyfarfodydd hyn.

4. Arolwg o'r trefniadau etholiadol ar gyfer Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg – drafft o'r Adroddiad Terfynol.

4.1 **Cytunodd** y Comisiwn ar y drafft o'r Adroddiad Cynigion Terfynol. Byddai hwn yn awr yn cael ei gyfieithu a'i gyhoeddi.

5. Arolwg o'r ffin rhwng Siroedd Ceredigion a Phenfro yn ardal Llandudoch – adroddiad o gynnydd ar lafar.

5.1 Adroddodd Mr Halsall mai'r dyddiad olaf ar gyfer cynrychioliadau ynglyn â'r adroddiad Cynigion Drafft oedd 16 Chwefror 2001. O'r 595 o gynrychioliadau a dderbyniwyd roedd tua 99% o blaid uno Pentref Llandudoch o fewn Sir Benfro. **Cytunwyd** y byddai adroddiad dadansoddol yn cael ei baratoi ar gyfer cyfarfod y Comisiwn ar 22 Mawrth 2001.

6. Contractau Gwasanaeth – adroddiad o gynnydd.

6.1 O ganlyniad i ymarferiad tendro diweddar, adroddodd Mr Halsall bod y Comisiwn wedi rhoi contract 3 blynedd ar gyfer argraffu.

6.2 O ganlyniad i'r ymarferiad tendro, adroddodd Mr Halsall bod y Comisiwn wedi rhoi contract 3 blynedd am logi peiriant llungopïo.

6.3 Adroddodd Mr Halsall bod yr ymarferiad tendro ar gyfer contract gwasanaethau cyfieithu yn digwydd ar hyn o bryd a 28 Chwefror 2001 oedd y diwrnod olaf ar gyfer cyflwyno tendrau.

6.4 Mae'r ymarferiadau tendro ar gyfer cyfrifo a gwasanaethau archwilio mewnol i ddechrau yn y dyfodol agos.

7. Gohebiaeth gan Brif Weinidog Cymru a'r Ysgrifennydd Cartref

7.1 Ystyriodd y Comisiwn ohebiaeth yn ymwneud â'r gyd ysgrifenyddiaeth a awgrymwyd ar gyfer y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru a'r Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru. Teimlai'r Comisiwn bod y cynnig yn un synhwyrol a **chytunwyd** y dylai'r Ysgrifennydd ddrafftio ymateb i'r Prif Weinidog yn nodi cefnogaeth y Comisiwn.

8. Unrhyw Fater Arall

8.1 Adroddodd Mr Halsall bod y costau galwadau anghyson ar gyfer cysylltiad rhyngrwyd y Comisiwn yn ymddangos fel pe baent wedi diflannu ers iddo roi CP arall i'r Ysgrifennydd. Gobeithiai y byddai costau'r galwadau yn awr yn aros ar lefel normal a byddai'n parhau i fonitro'r sefyllfa.

8.2 Pennwyd dyddiadau cyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol ar gyfer:

20fed Ebrill 2001 am 2.30pm
9fed Mai 2001 am 10.30am
15fed Mehefin 2001 am 10.30am
13eg Gorffennaf 2001 am 10.30am